

LLYWODRAETH CYMRU
DEDDF IS-DDEDDFAU LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) 2012
CANLLAWIAU AR GYFER IS-DDEDDFAU MODEL SET 6:
GLAN Y MÔR

Cyflwyniad

1. Deddf leol a wneir gan gorff statudol, megis Cyngor sir neu fwrdeistref sirol yng Nghymru, o dan bŵer galluogi mewn Deddf Seneddol neu un o Ddeddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw is-ddeddf.
2. Mae is-ddeddfau model yn gweithredu fel templed i Gyngorau pan fyddant yn drafftio is-ddeddfau ac yn nodi geiriad priodol ar gyfer is-ddeddfau mewn perthynas â nifer o bynciau gwahanol. Fodd bynnag, ni ddylid mabwysiadu'r holl fodelau gyda'i gilydd, ond yn ôl yr angen er mwyn mynd i'r afael â phroblem sy'n bodoli eisoes. Dylai Gyngorau nodi bod rhai o'r is-ddeddfau model unigol a/neu eu darpariaethau yn rhai dewisol a dim ond y rhai sydd eu hangen ac sy'n briodol y dylid eu mabwysiadu.
3. Ar ôl i Gyngor gadarnhau bod y broblem y mae angen rhoi sylw iddi yn cael ei chwmpasu gan is-ddeddf model benodol, dylai'r Cyngor ddod o hyd i gopi ohoni ar wefan Llywodraeth Cymru a'i addasu yn ôl ei anghenion. Bydd y nodiadau cyfarwyddyd cysylltiedig yn helpu gyda'r broses ddrafftio. Dylai Gyngorau bob amser ddilyn y weithdrefn berthnasol fel y'i nodir yn Neddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012.
4. Argymhellir y dylai Gyngorau ddilyn yr is-ddeddfau model er mwyn lleihau'r risg o broblemau drafftio neu osgoi gweithredu is-ddeddfau nad ydynt yn addas at y diben. Dylid nodi nad yw'r is-ddeddfau model yn rhai gorfodol ac y gellir ychwanegu atynt neu eu diwygio yng ngoleuni profiad ac amgylchiadau sy'n newid ac yn ôl y galw. Fodd bynnag, ceir rhai achosion lle y dylid mabwysiadu is-ddeddfau penodol yn eu cyfanrwydd.
5. Dylid darllen y nodyn cyfarwyddyd canlynol ochr yn ochr â'r is-ddeddfau model a *'Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 - Canllawiau, gan gynnwys Canllawiau Statudol, i Awdurdodau Lleol yng Nghymru, Cyngorau Cymuned a Thref, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Cyfoeth Naturiol Cymru'*, a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru. Gellir dod o hyd iddynt ar wefan Llywodraeth Cymru yn: <http://gov.wales/topics/localgovernment/local-government-byelaws/?lang=cy>
6. Cynlluniwyd y canllawiau hyn i hwyluso'r defnydd o is-ddeddfau model Llywodraeth Cymru i reoleiddio defnyddwyr glan y môr ac i ddarparu ar gyfer sicrhau trefn ac ymddygiad da at ddiben atal perygl, rhwystrau neu achosion o aflonyddu ar bobl sy'n defnyddio glan y môr, a wnaed o dan Adran 82 o Ddeddf Diwygio Deddfau Iechyd y Cyhoedd 1907.

Rhagor o wybodaeth/pwyntiau cyswllt

7. Dylid anfon unrhyw ymholiadau am yr is-ddeddfau model hyn i:

Tîm Partneriaethau Llywodraeth Leol
Is-adran Partneriaethau Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost ethicsandregulation@wales.gsi.gov.uk

Y Pŵer Galluogi

8. Mae adran 82 o Ddeddf Diwygio Deddfau Iechyd y Cyhoedd 1907 yn galluogi awdurdodau lleol i wneud is-ddeddfau i reoleiddio defnyddwyr glan y môr yn eu hardal ac i ddarparu ar gyfer sicrhau trefn ac ymddygiad da at ddiben atal perygl, rhwystrau neu achosion o aflonyddu ar bobl sy'n defnyddio glan y môr.
9. Nid oes angen i is-ddeddfau a wneir o dan adran 82 o Ddeddf Diwygio Deddfau Iechyd y Cyhoedd 1907 gael eu cadarnhau gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012. Nodir y weithdrefn ar gyfer gwneud y cyfryw is-ddeddfau yn adran 6 o'r Ddeddf honno, sydd hefyd yn gosod dyletswydd i ymgynghori ag unrhyw un (gan gynnwys, lle y bo'n gymwys, gyngor cymuned) y cred yr awdurdod fod y mater yn debygol o fod o ddiddordeb iddo neu effeithio arno.
10. Yn gyffredinol, ni fydd yn bosibl defnyddio is-ddeddfau i wahardd gweithgaredd lle nad oes dim ond pŵer rheoleiddio ar ei gyfer. Fodd bynnag, gall fod yn bosibl cyfyngu rhai agweddau penodol ar y gweithgaredd, er enghraifft, drwy gyfyngu'r gweithgaredd hwnnw i ardaloedd penodol ar lan y môr neu i adegau penodol o'r dydd.
11. Lle y bydd unrhyw rai o'r is-ddeddfau a fabwysiedir gan Gyngor yn effeithio ar y blaendraeth islaw'r marc penllanw ac y'u gwneir er mwyn sicrhau trefn ac ymddygiad da, mae adran 82(4) o Ddeddf Diwygio Deddfau Iechyd y Cyhoedd 1907 yn datgan y bydd angen caniatâd Gweinidogion Cymru cyn y daw'r is-ddeddfau'n weithredol.

Defnyddio'r Is-ddeddfau Model

12. Mae geiriau mewn print italig yn rhoi cyfarwyddiadau ar sut i addasu'r model (e.e. "*rhowch enw*") neu'n rhoi disgrifiad manylach o'r hyn a gwmpesir gan yr is-ddeddf pan fo nifer o is-ddeddfau model yn ymwneud â'r un pwnc.
13. Defnyddir cromfachau sgwâr i nodi:
 - (1) geiriau ychwanegol, y gall fod yn briodol eu defnyddio mewn rhai achosion (e.e. "[Y tu allan i'r manau dynodedig]");
 - (2) dewis o eiriau; neu

(3) rhifau y bydd angen eu diweddarau, yn ôl pob tebyg, wrth olygu'r set o is-ddeddfau model (e.e. Atodlen [1])

14. Os bydd yr is-ddeddfau yn cynnwys atodlenni neu fapiau, dylai'r rhain ymddangos cyn sêl y Cyngor.

Darpariaethau dehongli

15. Dylid defnyddio'r ddarpariaeth ddehongli gyffredinol i ddiffinio termau a ddefnyddir sawl gwaith yn nhestun yr is-ddeddfau. Dim ond y diffiniadau yn y rhestr sy'n ymddangos yn nhestun yr is-ddeddfau model a ddewiswyd gan y Cyngor y dylai'r Cyngor eu defnyddio. Os bydd gair a ddiffiniwyd ond yn ymddangos yn nhestun un o'r is-ddeddfau y mae Cyngor yn bwriadu ei mabwysiadu, dylid cynnwys y diffiniad hwnnw yn nhestun yr is-ddeddf berthnasol, fel is-baragraff ar wahân os oes modd.

Cymhwyso ac Atodlen

16. Lle y bydd yr is-ddeddfau yn berthnasol i fwy nag un ardal glan môr, dylid rhestru'r ardaloedd hynny mewn Atodlen i'r is-ddeddfau fel y nodir gan y set model. Dylid rhoi enwau neu ddisgrifiad o'r ardaloedd drwy gyfeirio at dirnodau ffisegol o dan restr yn nhrefn yr wyddor o drefi neu ddsbarthau lle mae'r ardaloedd wedi'u lleoli.

17. Os bwriedir i'r is-ddeddfau fod yn berthnasol i ran gyfyngedig o lan y môr, dylai'r disgrifiad o'r ardal gyfeirio at dirnodau ffisegol y bydd y cyhoedd yn eu hadnabod, a dim ond yn ychwanegol at unrhyw ddisgrifiadau y dylid defnyddio unrhyw gyfeiriadau at ffiniau awdurdod lleol neu gyfeirnodau map AO. Dylai unrhyw fap neu gynllun y cyfeirir ato yn yr is-ddeddfau fod: mewn du a gwyn; o faint addas i'w gynnwys yn yr is-ddeddfau; a dylai ragflaenu sêl y Cyngor. Gellir defnyddio lliw ar gyfer mapiau, ond dylai Cyngorau fod yn ymwybodol y bydd yn rhaid sicrhau bod copïau a argreffir o'r is-ddeddfau ar gael mewn lliw.

Arwyddion

18. Mae'n ofynnol i gynghorau osod hysbysiadau mewn mannau amlwg pan gaiff hyn ei grybwyll yn benodol mewn is-ddeddf. Dylai cynghorau hefyd ystyried p'un a fyddai hysbysiadau yn ddefnyddiol mewn perthynas ag is-ddeddfau eraill (e.e. er mwyn dynodi ardal gyfyngedig lle na chaniateir i unigolion balu am abwyd yn is-ddeddf model 7).

Ffioedd a chaniatadau

19. Ni ddylid defnyddio is-ddeddfau i orfodi unrhyw un i dalu ffi i'r Cyngor nac i gyflwyno cynllun trwyddedu neu ganiatadau. Byddai gofyniad y dylid talu ffi neu gael caniatâd, o ystyried y penderfyniad yn achos *Moorman v Tordoff* (1908), 72 J.P. 142, yn golygu y bydd yr is-ddeddf yn ultra vires ac yn afresymol.

20. Os mai'r Cyngor yw perchennog neu brydlesai'r ardal glan y môr, gall fod hawl ganddo i godi taliadau neu i'w gwneud yn ofynnol i ddefnyddwyr glan y môr feddu ar

ganiatadau (yn amodol ar unrhyw hawliau cyhoeddus). Rhaid i unrhyw reoliadau sy'n gwneud taliadau neu ganiatadau neu sy'n eu gwneud yn ofynnol fod yn gwbl annibynnol ar yr is-ddeddfau a rhaid eu llunio gan nodi'n berffaith glir na fydd unrhyw achos o fethu â chydymffurfio yn mynd yn groes i unrhyw ddarpariaethau yn yr is-ddeddfau.

Cerbydau

21. Mae adran 34(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988 (gwahardd unigolion rhag gyrru cerbydau a yrrir yn fecanyddol mewn manau ac eithrio ar ffyrdd) yn nodi bod unigolyn sy'n gyrru cerbyd a yrrir yn fecanyddol, heb awdurdod cyfreithlon - (a) ar neu dros unrhyw dir comin neu rostir neu dir o unrhyw ddisgrifiad arall, nad yw'n dir sy'n ffurfio rhan o ffordd, neu (b) ar unrhyw ffordd sy'n llwybr troed, yn llwybr marchogaeth neu'n isffordd gyfyngedig, yn euog o gyflawni trosedd.
22. Fodd bynnag, o dan adran 34 nid yw gyrru cerbyd a yrrir yn fecanyddol ar unrhyw dir o fewn 15 llath i ffordd y gellir gyrru cerbydau yn gyfreithlon arni er mwyn parcio ar y tir hwnnw yn drosedd. Dylai awdurdodau lleol ddibynnu ar Ddeddf 1988 i wahardd unigolion rhag reidio neu yrru cerbydau a yrrir yn fecanyddol ar lan y môr.

Palu am Abwyd

23. Cadarnhaodd y dyfarniad yn achos Anderson v. Cyngor Dosbarth Alnwick [1993] 3 All ER 613 fod yr hawl gyhoeddus i balu am abwyd yn ategol i'r hawl o dan gyfraith gwlad i bysgota ar lan y môr. Gellir rheoleiddio gweithgareddau palu am abwyd gan ddefnyddio'r is-ddeddfau hyn ond ni ellir eu gwahardd. Gallai trefniadau rheoleiddio gynnwys gwahardd gweithgareddau palu am abwyd o fewn ardaloedd penodedig o lan y môr neu wahardd gweithgareddau palu am abwyd at ddibenion masnachol ac eithrio gyda chaniatâd y cyngor ond ni ellir defnyddio is-ddeddfau i wahardd gweithgareddau palu am abwyd yn llwyr.
24. Ni ddylai unrhyw ardal gyfyngedig lle y caiff gweithgareddau palu am abwyd eu gwahardd fod mor helaeth fel ei bod yn atal abwyd rhag cael eu palu gerllaw, oherwydd gallai fel arall gael effaith andwyol ar yr hawl o dan gyfraith gwlad. Yn y diffiniad o "ardal gyfyngedig", os yn bosibl, dylid disgrifio'r ardal drwy gyfeirio at dirnodau ffisegol y bydd y cyhoedd yn eu hadnabod. Noda paragraff 17 uchod ganllawiau pellach am hyn.

Sioeau a Pherfformiadau Cyhoeddus

25. Dylai cyngorau sy'n ystyried mabwysiadu'r is-ddeddf hon gofio eu cyfrifoldebau fel awdurdodau cyhoeddus o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Rhaid cyfiawnhau unrhyw gyfyngiad ar ddigwyddiadau o'r fath o dan erthygl 10 (rhyddid mynegiant) o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Nid yw'n debygol y gellid cyfiawnhau gwaharddiad llwyr ar berfformiadau ar lan y môr, felly os caiff yr is-ddeddf hon ei mabwysiadu, rhaid neilltuo ardal ddynodedig briodol ar y traeth lle y gellir cynnal perfformiadau.

Masnachu

26. Mae'r is-ddeddf model hon yn ymdrin â rhwystrau neu niwsans a achosir gan fasnachu neu dowtio parhaus. Dylid ymdrin â rheolaethau mwy cyffredinol dros werthu nwyddau o dan gyfraith masnachu ar y stryd. Er bod y pŵer galluogi yn adran 82 o Ddeddf Diwygio Deddfau Iechyd y Cyhoedd 1907 yn cyfeirio'n benodol at reoleiddio gwerthu a phedlera ar lan y môr, mae'r pwerau i reoli masnachu ar y stryd o dan adran 3 neu/ac atodlen 4 i Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 yn fwy cynhwysfawr a dylid eu defnyddio yn lle hynny. "Mae "stryd" yn cynnwys traeth at ddibenion Deddf 1982, fel y'i nodir ym mharagraff 1 o atodlen 4 i'r Ddeddf honno.

Tanau a Phartïon

27. Ystyrir na fydd gwahardd cynnau tanau neu gynnal partïon o bosibl o fewn cwmpas adran 82 o Ddeddf Diwygio Deddfau Iechyd y Cyhoedd 1907 gan ei fod yn mynd y tu hwnt i drefniadau rheoleiddio cyffredinol mewn perthynas â defnyddwyr glan y môr. Fodd bynnag, cydnabyddir y gall fod angen rheolaethau dros y cyfryw ddigwyddiadau mewn rhai ardaloedd er mwyn sicrhau trefn ac ymddygiad da neu er mwyn atal perygl neu niwsans i'r rheini sy'n defnyddio glan y môr. Mae cynghorau sy'n defnyddio is-ddeddfau i orfodi unigolyn i dalu tâl neu i gael caniatâd mewn perthynas â rheoleiddio'r digwyddiadau hyn yn debygol o fod yn gweithredu mewn modd ultra vires, fel yr ystyrir ym mharagraff 19 uchod.

Awyrennau

28. Mewn achosion lle y mae angen is-ddeddf i reoleiddio awyrennau'n codi neu'n glanio ar lan y môr, rhaid i Gynghorau gysylltu â'r Adran Drafnidiaeth er mwyn sicrhau nad yw'r tir y bwriedir i'r is-ddeddf ei ddiogelu wedi'i ddsbarthu fel ardal drefol. Pan fydd tir wedi'i ddiffinio fel ardal drefol, dylid defnyddio Rheolau Rheoliadau Awyr 2007. Mae rheoliad 15 o Reoliadau Awyr 2007 yn darparu ar gyfer "Aerobateg a waherddir dros ardaloedd trefol/ardaloedd lle ceir llawer o draffig/o fewn gofod awyr rheoledig - heb ganiatâd yr uned rheoli traffig awyr briodol".

Dirymu

29. Mae'r is-ddeddf hon, y gellir ei defnyddio i ddirymu is-ddeddfau, yn cynnwys nifer o gyfarwyddiadau y gall fod angen ymhelaethu arnynt:

"rhowch enw" - yr enw perthnasol fydd enw'r cyngor a wnaeth yr is-ddeddfau, hyd yn oed os nad y Cyngor hwnnw yw awdurdod lleol yr ardal honno mwyach neu os yw bellach yn ddarfodedig.